COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TRWYDDEDU A GYNHALIWYD YN YSTAFELLOEDD PWYLLGOR 2/3 - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DYDD LLUN, 11 RHAGFYR 2017, AM 14:00

Presennol

Y Cynghorydd DRW Lewis – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| JE Lewis | RM James | DK Edwards | G Thomas |
| MJ Kearn | A Hussain | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

AA Pucella a/ac JE Williams

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Andrea Lee | Uwch Cyfreithiwr |
| Andrew Rees | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Daniel Cook | Swyddog Polisi Trwyddedu |

10. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim.

11. CYMERADWYO'R COFNODION

PENDERFYNWYD: Bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu dyddiedig 24 Hydref 2017 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir.

12. DEDDF CYDRADDOLDEB 2010

Cyflwynodd y Swyddog Polisi Trwyddedau adroddiad ar effaith Adrannau 165 ac 167 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2017 ac ar gynigion i'r Pwyllgor benderfynu a ddylid cynnal rhestr o gerbydau dynodedig yn unol â'r Ddeddf honno.

Hysbysodd y Pwyllgor fod Adran 165 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi ‘dyletswyddau’ penodol ar yrrwr "cerbyd dynodedig" h.y. cerbyd hacnai a cherbydau hurio preifat sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn. Ac roedd Adran 167 o'r Ddeddf yn darparu'r pwerau i'r Cyngor wneud rhestrau o gerbydau sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn (h.y. “cerbydau dynodedig”). Dywedodd er nad yw Awdurdodau Lleol o dan unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol benodol i gynnal rhestr o dan y Ddeddf, mae'r Llywodraeth yn argymell yn gryf eu bod yn gwneud hynny. Nododd na fyddai gofynion Adran 165 o'r Ddeddf yn berthnasol heb restr o'r fath.

Dywedodd y Swyddog Polisi Trwyddedu hefyd y gall fod gan rai gyrwyr gyflwr meddygol neu anabledd neu gyflwr corfforol sy'n ei gwneud yn amhosibl neu'n afresymol o anodd iddynt ddarparu'r math o gymorth corfforol sy'n ofynnol o dan y dyletswyddau hyn. O dan yr amgylchiadau hynny, mae'r Ddeddf yn caniatáu i'r Cyngor roi esemptiadau o'r dyletswyddau i yrwyr unigol. Nododd y bydd gyrwyr sydd wedi cael esemptiad yn derbyn hysbysiad, a rhaid ei ddangos yn y cerbyd.

Hysbysodd y Pwyllgor fod rhestr ddrafft o "gerbydau dynodedig" wedi'i llunio a chynigiwyd bod unrhyw gerbyd hacnai neu gerbyd hurio preifat a allai gario cadair olwyn (gyda'r defnyddiwr yn ei le), yn cael ei gynnwys ar y rhestr. Nododd fod, ar hyn o

bryd, 34 o gerbydau hacnai a 16 o gerbydau hurio preifat sy'n meddu ar y gallu hwn. Byddai angen i'r rhestr o gerbydau dynodedig gael ei chynnal a chynigiwyd bod rhestr wedi'i diweddaru'n cael ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor yn fisol. Cynigiwyd hefyd gyhoeddi'r rhestr gyntaf o gerbydau dynodedig ar 1 Mawrth 2018. Nododd y bydd y rhestr gyhoeddedig yn rhoi manylion y rhif trwydded cerbyd, rhif cofrestru, gwneuthuriad a model, ac a yw'r cerbyd yn gerbyd hacnai neu ar gyfer defnydd hurio preifat yn unig. Pan fydd y rhestr wedi'i chyhoeddi, byddai'n drosedd i yrrwr (oni bai ei fod wedi'i esemptio) cerbyd hacnai neu gerbyd hurio preifat sydd ar y rhestr ddynodedig fethu cydymffurfio â'r dyletswyddau sy'n ofynnol o dan y Ddeddf.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r cynnig i gyhoeddi a chynnal rhestr o gerbydau dynodedig yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010.

13. EITEMAU BRYS

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

Daeth y cyfarfod i ben am 14:18